O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 386 (Cy.55)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Allt Rhuallt, Llanelwy, Sir Ddinbych) (Terfyn Cyflymder 40 MYA Dros Dro) 2011

Gwnaed *14 Chwefror 2011*

Yn dod i rym *21 Chwefror 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caer i Fangor (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 21 Chwefror 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Allt Rhuallt, Llanelwy, Sir Ddinbych)(Terfyn Cyflymder 40 MYA Dros Dro) 2011.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 21 Chwefror 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu symud oddi yno'n derfynol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" *("the length of the trunk road")* yw'r darn o Gefnffordd yr A55 Caer i Fangor wrth Allt Rhuallt, Llanelwy yn Sir Ddinbych sy'n ymestyn o bwynt 1000 o fetrau i'r gorllewin o bont y B5429 wrth Gyffordd 28 i ganolbwynt Cyffordd 30.